CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CHWEFROR 14, 2023

www.cyngorllanelltyd.cymru

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Chwefror 14, 2023 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Llinos Rowlands, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer ac Eleri Jones. Hefyd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gwenan Owen a Gareth Ellis.

Ymddiheurodd Simon Evans am fod yn absenol o gyfarfod Ionawr 10 a diolchodd Geraint Rowlands am gadeirio'r cyfarfod.

2. Datgan diddordeb:

Eitem 5.a.:

Roedd Elfed ap Gomer a Delyth Lloyd Griffiths yn datgan diddordeb ynglŷn ag Cymdeithas y Dydd.

Roedd Geraint Rowlands ac Eleri Jones yn datgan diddordeb ynglŷn ag Ysgol Meithrin Dolgellau.

Roedd Llinos Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Neuadd Bentref Llanelltyd.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 10, 2023

Cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer, ac eilwyd gan Geraint Rowlands.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Ionawr 10, 2023

Eitem 11.b. Cafwyd gwybod (16/1/2023) gan Mabon ap Gwynfor nid yw mater Hengwrt wedi cael ei setlo.

Eitem 11.b Llythyr ateb (27/1/2023) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gydag ateb:
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cychwyn achos erlyn yn erbyn Hengwrt ac mae'n disgwyl i'r achos cael ei glywed mis Chwefror 2023. Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio ac o'r ymateb cafwyd maent am eu hystyried.
Pan fydd unrhyw gynnydd pellach, bydd y Parc yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

5. Materion Ariannol

a. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangellen, Teenage Cancer Trust, Kids Cancer Charity, Cerebral Palsy Cymru, Gofal Canser Tenovus, Hospices Plant Tŷ Gobaith, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Dawns i Bawb, Ysgol Meithrin Dolgellau, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Theatr Bara Caws.

Llythyr (25/11/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y terfyn ar gyfer 2022-23. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 o dan adran 137(4)(a), (1) a (3) £8.82, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.82 x 386 = £3,404.52.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Cyngor ar Bopeth, Gwynedd - £200
Ambiwlans Awyr Cymru - £400
Cymdeithas Y Dydd - £100
Ysgol Feithrin Dolgellau - £350
Tŷ Gobaith a Hope House (Children's Hospices) - £150
Marie Curie £150.

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau).
Theatr Bara Caws - £50.

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £200

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Bentref Bontddu: - £600
Neuadd Bentref Llanelltyd - £600

Cyfanswm: £2,800.

b. Llythyr (12/1/2023) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

c. Llythyr (17/1/2023) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod bydd taliad cyflog misol y Clerc o fis Mawrth 2023 yn: taliad i'r Clerc: £113.66, i Cyllid a Thollau EM: £28.42. (£113.66 + £28.42)12 = £1,704.96. Gweler Eitem 5.d. Cofnodion Tachwedd 8, 2022.

Penderfynwyd derbyn y taliad.

ch. Llythyr (29/1/2023) oddi wrth Theatr Baracaws. Maent angen cymorth ariannol.

d. Bil (25/1/2023) am £33.60 oddi wrth G.W. Jones am dorri gwrych y fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Balans yn y banc ar 29/1/2023: £11,305.70. (29/1/2022: £12,017.03).

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/250A. Gosod paneli haul ar to y tŷ a'r garej, a dymchwel rhan o'r garej presennol. Ael-y-Bryn, Taicynhaeaf.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (28/1/2023)

b. Cais Cynllunio NP5/65/LB155A. Dymchwel adeilad tin presennol ac adeiladu garej dwbl, dymchwel storfa bresenol ac adeiladu storfa/gweithdy yn ei le.
Hendre Forion, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (24/1/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanelltyd.

b. Llythyr (25/1/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafnidiaeth dros dro ar ffordd A496 a adwaenir fel Ffordd y Brenin, Abermaw. Bydd y ffordd ar gau 31/1/2023 am 3 diwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i Dŵr Cymru gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (2/2/2023) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith lledu troedffordd a gwellianau croesi cysylltiedig yn cael ei wneud ar hyd yr A470, Dolgellau i Llanelltyd. Bydd y gwaith yn cael ei wneud rhwng 9/2/2023 a 18/4/2023 gan Alun Griffiths Contractors .

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (7/2/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ar 15/2/2023 am 7:00yh ar ZOOM. Amgau mae Agenda a chofnodion cyfarfod 9/11/2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Llythyr (15/1/2023) gan Mabon ap Gwynfor AS (Plaid Cymru) i'r wasg yn rhoi gwybod bydd cymunedau gwledig yn diodde os bydd safle Awyr Ambiwlans Cymru yn cael ei thorri.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. O Agenda Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth: Adroddiad oedd i gyfarfod 17/1/2023:

1. Arian/dyled y Cyngor - mae y swyddogion yn rhagweld 12 miliwn o ddyled yn ystod 2023
   Cafwyd o 7% gan Lywodraeth Cymru ac mae costau byw yn 11%
   Amserlen
   26/1/23 Ymgynghoriad i'r cynghorwyr a 9/2/23 cabinet yn trafod y toriadau.
   *Gweler y wybodaeth ariannol ddiweddaraf mewn atodiad.
2. Graeanu – Cefais gais i ofyn am roi graean ar y ffordd gan dri yn yr ardal – y diwrnod wedyn cafodd y ffyrdd penodol eu graeanu.
3. Seren fach - 20 milltir yr awr yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad fydd yn dod i bob Cyngor Cymuned.
4. Nannau – Gweler y diweddaraf gan Jonathan Cawley, Adran Cynllunio y Parc.
   *Gweler yr atodiad
5. Lle cynnes - tlodi tanwydd eto dydd Iau 19/1/23.
   Cafwyd £3000 ei rhoi allan tro olaf i ni gael staff y Cyngor i roi cymorth yn y Llyfrgell Rhydd.
   Mae 34% o blant Cymru yn byw mewn tlodi a nifer fawr o ''pre payment meters'' yn uchel yng Ngwynedd.
6. Yn dilyn fy nghwestiwn am y bwyd sydd yn cael ei brynu yn lleol gan y Cyngor – 1/2/23 bydd cyfarfod cychwynnol i ddechrau gwella y sefyllfa yn y Sir.
   *Gweler atodiad am y cwestiwn.
7. Ambiwlans Awyr – Bu iddo fynd at ddamwain heddiw o fewn 26 munud i Caersws (Powys) o Ddinas Dinlle. Mae yr ymgynghoriad wedi ei symud o Ionawr 2023 i Chwefror. Dim rheswm penodol am hyn.

8. Magnox /Atomfa – Rwyf yn trefnu cyfarfod gyda staff yr Atomfa i gael diweddariad ar gais cyngor cymuned Ganllwyd. Mae croeso i aelodau yr ardal ymuno a ni.
9. "Searches" (wrth brynu Tŷ) .Mae y cyngor yn llwyddo i wneud rhain mewn 39 diwrnod rŵan.
10. Cynllunio – mae nifer o achoson agored wedi mynd lawr o 750 i 550 erbyn hyn er bod heriau denu staff i weithio yn yr adran.
11. 20 milltir yr awr mewn pentrefi – ymgynghoriad yn cychwyn yn fuan a bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned gael rhoi ei barn ar y newid o 30 i 20 milltir yr awr mewn pentref.
    *Gweler y wybodaeth mewn atodiad.
12. Camp Ganllwyd (Maesgwm) ar leoliad yr hen Coed y Brenin – ymgynghoriad gan Cyfoeth Naturiol yn cychwyn yn fuan.
13. Cynlluniau tai – ail gofrestru angen rŵan ar gyfer fod ar y rhestr Tai Cymdeithasol yng Ngwynedd cynllun Tai Teg(rhannu ecwiti) yn mynd yn ei flaen a nifer fach wedi elwa yn barod.

1. 'Cyllideb Refeniw 2022/2023 Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran Cyngor Gwynedd.

2. 'Nannau'. Mae'r Nannau ar raglen waith y Parc.

3. 'Cwestiwn Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths' i Cyngor Gwynedd ynglŷn â defnyddio cynyrch lleol i baratoi prydiau yn ysgolion, lleoliadau gofal a chanolfannau eraill y Cyngor. Derbyniwyd ateb.

c. Llythyr (14/2/2023) oddi wrth Rheolwr Traffig a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth ar 'Newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder' ynglyn cyflymder 20mya. Amgáu mae gwybodaeth ar 'Terfynau cyflymder 20myw' gan Swyddog Cyfathrebu – Aelodau a Staff, Cyngor Gwynedd yn gofyn am sylwadau cynghorwyr ar y pwnc.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Mae Tim Tacluso Ardal ni yn tacluso o gwmpas hen Bont Wnin.

11. Materion Brys

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn y Rhaglan gan ddileu Hyfforddiant Cynghorwyr, Hyfforddiant Clerc, a Toiledau o'r rhestr.

b. Mae angen cadarnhau Asedion.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr Asedion gan gynnwys y Lloches Bws sydd wrth Minffordd, Llanelltyd.

c. Mae angen trwsio'r ffens sydd ar ochr ffordd A496 ar gyfer Ysgol Llanelltyd, a'r ffens sydd rhwng hen Capel Borth a Fiddler's Elbow.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

ch. Mae angen trwsio'r fainc sydd wrth hen bont Wnin, Llanelltyd.

d. Mae angen ysgubo'r ffordd a chlirio'r cwterydd ar ffordd Cwm Mynach, Taicynhaeaf.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.